


# Adran 2

# Crynodebau sector: Cymraeg i Oedolion

2

## Cyd-destun

Yn 2016, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb am y sector Cymraeg i Oedolion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Y Ganolfan Genedlaethol). Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn neilltuo cyllid ac yn cynnig cyfeiriad strategol a sicrwydd ansawdd yn y sector. Mae'n ariannu 11 o ddarparwyr i gyflwyno cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd daearyddol dynodedig. Mae'r darparwyr hyn wedi'u dynodi'n ddarparwyr Dysgu Cymraeg. Yn 2017-2018, fe wnaeth 12,680 o ddysgwyr unigol sy'n oedolion gofrestru ar gyrsiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion gyda'r darparwyr hyn (Llywodraeth Cymru, 2019c).

Ar ôl gweithredu Cynllun Rheoli Data'r Ganolfan Genedlaethol, hon yw'r flwyddyn lawn gyntaf y mae data ar gael i'w rhannu, ac mae'n waelodlin genedlaethol ar gyfer y sector. Bydd modd gwneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn o'r gwaelodlin a sefydlir o dan y strwythur newydd hwn. Cynigir cyfleoedd dysgu ar bum lefel. Yn 2017-2018, roedd 51% o ddysgwyr ar lefel Mynediad (dechreuwyr), roedd 18% ar lefel Sylfaen gyda 31% ar lefelau Canolradd neu Uwch, (gan gynnwys cyrsiau lefel Hyfedredd). Yn 2017-2018, cyflwynwyd 42% o'r holl gyfleoedd dysgu ar gyrsiau rhwng 50 a 79 o hyd (Llywodraeth Cymru, 2019c). Mae amcan strategol gan y Ganolfan Genedlaethol i gynnig cyrsiau dwysach, er mwyn cyflymu cynnydd dysgwyr tuag at fod yn rhugl. Yn 2017-2018, fe wnaeth 12% o'r cyfleoedd dysgu gyflwyno dros 110 o oriau o ddysgu.

# Crynodebau sector: Cymraeg i Oedolion

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen 'Cymraeg Gwaith' sy'n ceisio cryfhau medrau dwyieithog yn y gweithle.  Mae bron i 13,000 o ddysgwyr wedi cymryd rhan yn y rhaglen ers iddi ddechrau yn Ebrill 2017.  Yn ogystal â bod yn ychwanegiad gwerthfawr at y sector Cymraeg i Oedolion, mae'r cynllun wedi ehangu i feysydd eraill fel addysg bellach ac addysg uwch.  O dan y cynllun, mae staff a darlithwyr yn cael gwersi Cymraeg i ddatblygu'u medrau Cymraeg a'u defnyddio yn eu gwaith a'u haddysgu.  Hefyd, mae'r cynllun wedi ehangu ei waith i gyrsiau ar gyfer gweithlu addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant, y sectorau iechyd a gofal, darparwyr prentisiaethau a'r sector preifat.  Yn ystod y cylch arolygu presennol (2018-2024), ein nod yw arolygu'r Ganolfan Genedlaethol ddwywaith.

Rhwng Medi 2018 a Gorffennaf 2019, fe wnaethom arolygu un darparwr Cymraeg i Oedolion.

## Canfyddiadau arolygu

Ym Mai 2019, cynhaliom arolygiad o Ddysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, Prifysgol Abertawe.  Barnwyd bod pob un o'r meysydd arolygu yn dda.

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn gymuned glòs a chynhwysol sy'n cynnig gofal a chefnogaeth briodol i ddysgwyr.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu ystod o fedrau ieithyddol gyda'r prif bwyslais ar siarad Cymraeg mewn cyd-destunau defnyddiol ac ystyrlon.  Dros gyfnod, daw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siaradwyr Cymraeg cynyddol hyderus.  Mae bron pob dysgwr yn glir iawn ynglŷn â'u rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg.  Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr brwdfrydig ac uchelgeisiol sy'n mwynhau eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio gwersi yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion y dysgwyr.  Maent yn amrywio'r gweithgareddau yn ystod gwersi yn fedrus ac yn codi hwyl wrth gyflwyno ac ymarfer iaith.  Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi adborth llafar defnyddiol ac ysgogol sydd yn gymorth i ddysgwyr wella agweddau pwysig ar eu gwaith.  Mae ansawdd adborth ysgrifenedig i ddysgwyr ar sut i wella eu gwaith ysgrifenedig yn amrywio gormod.

Mae darpariaeth Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ymarfer yr iaith.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a chymryd rhan mewn ymweliadau sy'n ehangu gwybodaeth dysgwyr am y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, er enghraifft ymweliadau ag Eisteddfod yr Urdd a Gŵyl y Nadolig yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a nodau strategol pwrpasol sy'n gyson â chynlluniau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.  Mae uwch arweinwyr wedi llwyddo i gynnal safon uchel o ddarpariaeth drwy gyfnod o ad-drefnu.